Department for Environment Food & Rural Affairs

# Lles Ŵyn

# Ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i ddulliau ysbaddu a thocio cynffonnau

12 Ionawr 2026

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs

Adran yr Amgylchedd, Amaeth a Materion Gwledig ydym ni. Rydym yn gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, tyfu'r economi werdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn fwy pur, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell nag yr oedd.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/defra

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn Lamb-Castration-and-Tail-Docking@defra.gov.uk.

## Cynnwys


Trosolwg ....................................................................................................... 4

Cwmpas ....................................................................................................... 4

Cynulleidfa ..................................................................................................... 4

Ymateb i'r ymgynghoriad ................................................................................... 4

Cyflwyniad ..................................................................................................... 5

Deddfwriaeth .................................................................................................. 6

Cynigion ........................................................................................................ 7

1. Defnyddio dulliau nad ydynt yn achosi poen sylweddol ........................................ 8

2. Rhoi meddyginiaeth lleddfu poen ar gyfer triniaethau ........................................ 11

Cwestiynau'r ymgynghoriad .............................................................................. 12

Cyfrinachedd a Diogelu Data ............................................................................ 12

Amdanoch chi neu eich sefydliad ....................................................................... 12

Dulliau ysbaddu a thocio cynffonnau .................................................................. 14

Hyfforddiant stocmoniaeth ................................................................................ 25

Cyfyngiadau oedran ......................................................................................... 26

Asesiad effaith ................................................................................................ 29

Sylwadau pellach ............................................................................................. 33

# Trosolwg

## Cwmpas

Rydym yn ceisio barn ar ddiwygio'r ddeddfwriaeth ar ysbaddu ŵyn a thocio cynffonnau.

Mae lles anifeiliaid yn gyfrifoldeb polisi datganoledig. Rydym yn cynnig y byddai diwygiadau i ysbaddu ŵyn a thocio cynffonnau yn cael eu rhoi ar waith ledled y DU, er mwyn mabwysiadu dull gweithredu cyson ledled y DU. Mae'r cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth berthnasol ar ysbaddu ŵyn a thocio cynffonnau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae ein cynigion polisi yn ymwneud â defaid o dan bob system hwsmonaeth. Mae'r gair 'defaid' yn cyfeirio at bob stoc o deulu'r ddafad, ac mae anifail o dan 6 mis oed yn cael ei ystyried yn oen.

## Cynulleidfa

Gall unrhyw un ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r rhai a allai fod â diddordeb yn cynnwys:

- sefydliadau academaidd
- sefydliadau lles anifeiliaid
- defnyddwyr
- cynlluniau gwarant fferm
- sefydliadau ffermio
- marchnadoedd da byw neu arwerthwyr
- awdurdodau lleol (ALlau)
- adwerthwyr
- lladd-dai defaid
- ffermwyr defaid
- cyrff masnach
- y proffesiwn milfeddygol

## Ymateb i'r ymgynghoriad

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 12 January 2026 ac yn dod i ben ar 9 March 2026. Ni fydd ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu dadansoddi.

Ymatebwch i'r ymgynghoriad hwn drwy ddefnyddio hyb ymgynghori Citizen Space.

Os nad ydych chi'n gallu defnyddio Citizen Space, gallwch lawrlwytho'r dogfennau ymgynghori a dychwelyd eich ymateb drwy e-bost at Lamb-Castration-and-Tail-Docking@defra.gov.uk neu'n ysgrifenedig at:

Lamb Castration and Tail Docking Consultation, Farm Animal Welfare Team, Department for Environment, Food and Rural Affairs, Seacole Building 2nd Floor, 2 Marsham Street, London, SW1P 4DF.

Sylwch, rhaid i unrhyw ymatebion sy’n cael eu hanfon drwy’r post gyrraedd y cyfeiriad uchod erbyn dyddiad cau’r ymgynghoriad (9 March 2026) er mwyn cael eu cyfrif. Ni fydd ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu dadansoddi. Er mwyn sicrhau bod eich ymateb yn cael ei gynnwys yn y dadansoddiad, ystyriwch ymateb yn electronig, naill ai ar-lein drwy Citizen Space neu drwy e-bost.

Rydym yn cydnabod y gall ymatebwyr ddewis defnyddio rhywfaint o destun safonol ar gyfer eu hymateb. Ymgyrchoedd yw pan fydd sefydliadau (neu unigolion) yn cydlynu ymatebion ar draws eu haelodau neu eu cefnogwyr, yn aml drwy awgrymu geiriad i ymatebwyr ei ddefnyddio. Mae ymatebion ymgyrchu fel arfer yn debyg iawn neu’n union yr un fath â’i gilydd. Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, gellir dadansoddi ymatebion ymgyrchu ar wahân i ymatebion eraill i sicrhau bod modd crynhoi ehangder y safbwyntiau a gafwyd yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd yr holl ymatebion ymgyrchu yn cael eu hystyried yn y dadansoddiad terfynol o farn y cyhoedd ac mae ymgyrchoedd yn helpu i roi syniad o gryfder y teimlad ar fater. Y llwybr sy’n cael ei ffafrio i’r holl ymatebwyr roi eu barn (gan gynnwys lle mae ymateb yn seiliedig ar ymgyrch) yw drwy hyb Citizen Space.

# Cyflwyniad

Ymgynghoriad ar y cyd yw hwn ar gynigion i ddiwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol ar ysbaddu ŵyn a thocio cynffonnau, ac mae'n cael ei gyhoeddi gan Defra ar ran Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Mae Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi ymrwymo i les anifeiliaid ym mhob cyfnod o fywyd. Mae anffurfio, fel ysbaddu a thocio cynffonnau, yn cael eu gwneud fel mater o drefn yn y sector defaid gyda'r nod o gyflawni amrywiaeth o amcanion hwsmonaeth, gan gynnwys diogelwch, effeithlonrwydd ac atal clefydau. Fodd bynnag, mae'r triniaethau'n boenus. Bwriad y llywodraeth yw lleihau nifer yr achosion o anffurfio a diogelu lles anifeiliaid lle mae cyfiawnhad priodol dros y triniaethau hyn.

Cofnodwyd 30.5 miliwn o ddefaid ac ŵyn yn y Deyrnas Unedig ar 1 Mehefin 2025. Mae ysbaddu ŵyn a thocio cynffonnau yn arferion rheoli cyffredin yn y sector hwn, er bod diffyg gwybodaeth am union nifer yr achosion.

Mae'r Pwyllgor Lles Anifeiliaid (AWC), pwyllgor annibynnol ac arbenigol o Defra a Llywodraethau Cymru a'r Alban, wedi ystyried goblygiadau ysbaddu a thocio cynffonnau er lles ŵyn. Mae wedi cynhyrchu tri adroddiad ar y pwnc hwn, yn 1994, yn 2008, ac yn fwyaf diweddar yn 2022. Gwnaed nifer o argymhellion yn yr adroddiad diweddaraf, gan gynnwys lleihau ysbaddu a thocio cynffonnau rheolaidd a chaniatáu defnyddio dyfeisiau newydd ar gyfer ysbaddu ŵyn a thocio cynffonnau y dangoswyd eu bod yn llai niweidiol i les na dulliau traddodiadol.

Mae ysbaddu ŵyn a thocio cynffonau yn cael ei wneud gan y diwydiant defaid am amryw o resymau. Dylai'r penderfyniad i gyflawni’r naill driniaeth neu'r llall gael ei lywio gan y rheswm y dibynnir arno ar gyfer cyflawni’r driniaeth, a oes cyfiawnhad digonol dros y boen a fydd yn cael ei hachosi gan y driniaeth ac a oes strategaethau rheoli amgen ar gael i osgoi defnyddio'r driniaeth yn y lle cyntaf. Er bod y Cod Ymarfer presennol ar Les Defaid (mae codau tebyg ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) eisoes yn tynnu sylw at bwysigrwydd asesu anghenraid y triniaethau hyn, bwriadwn ei ddiweddaru gyda chanllawiau gwell i gefnogi cyfiawnhad cadarnach dros eu defnyddio. Y bwriad fyddai ymgynghorir ar newidiadau i'r codau ar wahân.

## Deddfwriaeth

Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 ar gyfer Cymru a Lloegr, Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid (Yr Alban) 2006 ar gyfer yr Alban a Deddf Lles Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon) 2011 ar gyfer Gogledd Iwerddon yn ei gwneud yn drosedd mewn unrhyw ran o'r DU i gyflawni triniaeth sy'n golygu ymyrryd â meinweoedd sensitif neu strwythur esgyrn anifail ac eithrio at ddibenion ei drin yn feddygol. Fodd bynnag, nid yw'r drosedd yn gymwys pan fo triniaeth o'r fath yn cael ei chaniatáu gan reoliadau a wneir o dan y Deddfau[1] hynny ac yn cael ei chyflawni yn unol â'r rheoliadau hynny. Mae'r rheoliadau canlynol yn cynnwys esemptiadau ar gyfer ysbaddu ŵyn a thocio cynffonnau, a'r amodau y caniateir i'r rhain gael eu cyflawni oddi tanynt:

- Lloegr: Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Lloegr) 2007 (MRE)
- Cymru: Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007 (MRW)
- Yr Alban: The Prohibited Procedures on Protected Animals (Exemptions) (Scotland) Regulations 2010 (PPR)
- Gogledd Iwerddon: The Welfare of Animals (Permitted Procedures by Lay Persons) Regulations (Northern Ireland) 2012 (WAR)

Dylid darllen y rheoliadau hyn ar y cyd â'r ddeddfwriaeth ganlynol, sy'n berthnasol i:

- Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon
    - Deddf Milfeddygon 1966 (VSA)
- Yr Alban
    - Deddf Diogelu Anifeiliaid (Anestheteg) 1954 (PAA)

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n caniatáu ysbaddu a thocio cynffonnau defaid yn wahanol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Amlinellir y gwahaniaethau hyn yn Atodiad B.

---

[1]Adran 5(4) Deddf Lles Anifeiliaid 2006, Adran 20(5) Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid (Yr Alban) 2006 ac Adran 5(4) Deddf Lles Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon) 2011.

# Cynigion

Mae ein cynigion yn ceisio sicrhau, pan fydd ysbaddu a thocio cynffonnau'n digwydd, bod y boen a achosir i'r anifeiliaid gan y triniaethau hyn yn cael ei lleihau'n briodol.

Rydym yn cydnabod efallai na fydd yn bosibl osgoi ysbaddu neu docio cynffonnau mewn rhai sefyllfaoedd. Er mwyn lleihau'r boen a achosir gan y naill driniaeth neu'r llall yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, rydym yn cynnig cynyddu hygyrchedd dulliau newydd a ddefnyddir ar hyn o bryd yn yr Alban y dangoswyd eu bod yn llai niweidiol i les na dulliau traddodiadol. Rydym hefyd yn cynnig ei gwneud yn ofynnol defnyddio dulliau lleddfu poen ar gyfer dulliau y gwyddom eu bod yn achosi poen sylweddol. Yn olaf, byddem yn gosod cyfyngiadau ar bwy sy'n gallu cyflawni pob dull, sut a phryd. Mae'r cynigion hyn yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol fel yr amlinellir yn Atodiad C.

Byddai'r cynigion hyn yn cael eu rhoi ar waith drwy ddeddfwriaeth a wneir gan lywodraeth y DU a phob llywodraeth ddatganoledig. Byddai angen diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol ym mhob gwlad, sy'n nodi o dan ba amodau y caniateir ysbaddu ŵyn a thocio cynffonnau, er mwyn cyflawni hyn. Ar hyn o bryd mae rhai gwahaniaethau yn y ddeddfwriaeth. Ein nod fyddai sicrhau dull gweithredu cyson ledled y DU.

## Dewisiadau

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn ceir asesiad de minimis (Atodiad A) sy'n ystyried amrywiaeth o opsiynau polisi ynghylch goblygiadau ysbaddu a thocio cynffonnau ar les ŵyn. Cafodd "rhestr hir" gychwynnol o opsiynau ymarferol ei datblygu a'i gwerthuso ar sail ein hamcanion polisi a'n ffactorau llwyddiant critigol. Roedd hyn yn cynnwys opsiynau eithafol, fel gwneud dim neu wahardd ysbaddu a thocio cynffonnau yn llwyr, ochr yn ochr â dulliau nad ydynt yn rheoleiddiol a diwygiadau rheoleiddio cymesur.

Os na wneir dim, bydd deddfwriaeth ar draws y gweinyddiaethau'n parhau i fod yn anghyson, a gallai lles ŵyn barhau i gael ei beryglu drwy barhau â'r arfer presennol o ysbaddu â chylchoedd rwber a thocio cynffonnau heb ladd poen. Cadwyd yr opsiwn o waharddiad llawn, a fyddai'n gwahardd ysbaddu a thocio cynffonnau, fel cymharydd, ond fe'i gwrthodwyd fel dull a ffafrir. Nid yw'n adlewyrchu'r sylfaen dystiolaeth gynnil nac anghenion y sector. Mae achosion o hyd, fel lle mae risg uchel o gynrhoni, lle gellir cyfiawnhau'r triniaethau hyn o hyd. Felly, gallai gwaharddiad arwain at niwed anfwriadol i les.

Yr opsiwn heb fod yn rheoleiddiol fyddai diweddaru Codau Ymarfer yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon gyda chanllawiau newydd ar yr arferion gorau ar gyfer ysbaddu a thocio cynffonnau. Er ein bod yn dal yn bwriadu diweddaru'r Codau fel rhan o'r pecyn ehangach, cafodd yr opsiwn hwn yn unig ei ddiystyru. Ni fyddai'n unioni'r anghysondeb deddfwriaethol rhwng gweinyddiaethau nac yn dileu darpariaethau statudol hen ffasiwn sy'n anghyson â'r wyddoniaeth lles bresennol. Rydym hefyd o'r farn bod rhwymedigaethau cyfreithiol yn angenrheidiol er mwyn sicrhau newid ystyrlon yn y sector hwn a galluogi gorfodi cymesur.

Cafodd yr opsiynau eu diystyru er mwyn penderfynu ar yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio, sef diwygio deddfwriaeth berthnasol i sicrhau cysondeb rhwng y gweinyddiaethau a diogelu lles defaid lle mae cyfiawnhad priodol dros y triniaethau hyn.

## 1. Defnyddio dulliau nad ydynt yn achosi poen sylweddol

Mewn rhai achosion, efallai na fydd yn bosibl dileu'r angen i ysbaddu a thocio cynffonnau. Os ystyrir bod angen triniaeth o hyd, yna dylid defnyddio dulliau nad ydynt yn achosi poen sylweddol, neu dylid darparu dulliau addas o leddfu poen hefyd.

Mae pob dull o ysbaddu a thocio cynffonnau yn achosi poen, a all fod yn **acíwt** (cyfnod byr) ac yn **gronig** (hir). Ceir tystiolaeth wyddonol o boen a achosir gan bob dull yn Atodiad C. Er yr ystyrir bod poen o ganlyniad i docio cynffonnau yn llai na phoen o ganlyniad i ysbaddu, mae'n dal yn sylweddol. Pan fydd y triniaethau hyn yn cael eu cynnal gyda'i gilydd, maen nhw'n achosi mwy o boen na'r naill neu'r llall ar eu pen eu hunain.

Isod, rydym yn amlinellu'r dulliau presennol a newydd o ysbaddu ŵyn a thocio cynffonnau, y dystiolaeth ar y boen sy'n gysylltiedig â phob dull a ffactorau eraill a allai leihau poen a gwella lles ŵyn.

### Dulliau presennol

#### Cylch rwber

Mae ysbaddu a thocio cynffonnau fel arfer yn cael eu cyflawni gan ddefnyddio cylchoedd rwber heb anaesthesia nac analgesia. Mae'r dull cylch rwber yn golygu defnyddio elastrigydd i osod cylch rwber tynn o amgylch gwddf y ceillgwd, neu gynffon i'r hyd a ddymunir. Mae hyn yn torri'r cyflenwad gwaed ac yn achosi i'r feinwe o dan y cylch rwber grebachu a syrthio i ffwrdd. Er bod y dull hwn yn rhad, yn hawdd ac yn effeithiol, mae tystiolaeth helaeth (Atodiad C) y gall ŵyn brofi poen acíwt am hyd at 4 awr, wrth i'r cylch rwber gyfangu'n araf i'w faint gwreiddiol, a phoen cronig am fwy na 40 diwrnod, wrth i'r meinweoedd gael eu bwrw a'r clwyfau wella.

Mae'r terfyn oedran presennol o 7 diwrnod ar ddefnyddio cylchoedd rwber yn dyddio'n ôl i'r adeg pan gredid bod anifeiliaid iau o wahanol rywogaethau yn teimlo llai o boen nag anifeiliaid hŷn. Mae tystiolaeth fwy diweddar (Atodiad C) yn awgrymu bod ŵyn ifanc yr un mor sensitif neu hyd yn oed yn fwy sensitif i boen nag ŵyn hŷn, ond efallai nad oes ganddynt y repertoire ymddygiadol i fynegi'r boen hon.

Mae ysbaddu'r ceillgwd byr yn ddull sy'n golygu defnyddio elastrigydd i osod cylch rwber tynn o amgylch gwddf y ceillgwd, tebyg i'r dull cylch rwber, ond gyda'r ceilliau'n cael eu gwthio'n agos at neu i mewn i lwybr yr arffed. Mae tymheredd y ceilliau yma yn uwch nag yn y ceillgwd, ac felly mae’r oen yn cael ei wneud yn anffrwythlon. Ystyrir bod y dull hwn yn achosi llai o boen nag ysbaddu cylch rwber, ond gall fod yn fwy poenus o hyd na'r dull ysbaddu cyfunol (gweler isod) neu ysbaddu cylch rwber gydag anesthetig lleol wedi'i

chwistrellu (Atodiad C). Mae risg hefyd y gallai'r ceilliau ddisgyn yn rhannol, ac y gallai ŵyn fynd yn ffrwythlon os na chaiff y cylch rwber ei osod yn ofalus. Defnyddir y dull hwn yn fwy rheolaidd yn Seland Newydd ac Awstralia.

**Clamp (er enghraifft, Burdizzo)**

Mae'r dull hwn o disbaddu yn golygu defnyddio clamp i falu'r llinynnau sbermatig a'r pibellau gwaed yng ngwddf y ceillgwd. Gellir rhoi'r clamp ar bob llinyn sbermatig yn unigol, neu ar draws gwddf cyfan y ceillgwd, fel bod y meinweoedd o dan y wasgfa yn marw ac yn disgyn i ffwrdd. Er ei fod yn dal yn boenus, gall y dull hwn achosi llai o boen acíwt “nad oes modd ei osgoi” nag ysbaddu cylch rwber oherwydd bod y nerfau'n cael eu gwasgu wrth osod y clamp, ac mae'n cynnig dull gwell o wella clwyfau ac yn lleihau poen cronig (Atodiad C). Mae angen gweithredwr medrus i osod clampiau ac mae perygl o ysbaddu aflwyddiannus neu anaf os caiff ei ddefnyddio'n amhriodol.

**Dull cyfunol (h.y. cylch rwber a chlampio gyda'i gilydd)**

Gellir lleihau poen yn sgil ysbaddu cylch rwber a thocio cynffonnau drwy ddefnyddio'r “dull cyfun”, sy'n gyfuniad o gylch rwber a chlamp (er enghraifft, Burdizzo). Mae hyn yn darparu manteision cylch rwber (sêl effeithiol) a chlamp (llai o boen ar unwaith). Er ei fod yn dal yn boenus, gall y dull hwn achosi llai o boen acíwt nag ysbaddu cylch rwber safonol oherwydd bod y nerfau'n cael eu gwasgu wrth osod y clamp, ac mae'n cynnig dull gwell o wella clwyfau ac yn lleihau poen cronig (Atodiad C). Fodd bynnag, mae cyflawni dwy driniaeth ar bob oen yn feichus ac yn cymryd llawer o amser, ac mae tystiolaeth, mewn rhai cymwysiadau, y gall ysbaddu drwy ddull cyfunol achosi cymaint o boen acíwt ag a achosir gan gylchoedd rwber yn unig (Atodiad C). Mae lliniaru poen yn dibynnu ar sut y defnyddir y clamp (er enghraifft, lleoliad ac am faint o eiliadau y’i defnyddir); mae'r dull hwn yn fwyaf effeithiol pan ddefnyddir y clamp unwaith ar draws lled llawn y ceillgwd neu'r gynffon, i atal trosglwyddo poen o feinweoedd o dan y wasgfa.

**Llawfeddygol (h.y. cyllell)**

Mae'r dull hwn yn golygu ysbaddu neu docio cynffon drwy dorri â chyllell neu lafn. Ar gyfer ysbaddu, gall hyn olygu tynnu'r ceilliau'n llwyr drwy doriad yn y ceillgwd. Ystyrir bod ysbaddu a thocio cynffonnau llawfeddygol yn achosi llawer mwy o drallod nag unrhyw ddull arall (Atodiad C), yn enwedig os caiff ei wneud heb anesthetig lleol, ac ni chredir ei fod yn arfer cyffredin ers datblygu cylchoedd rwber.

Mewn anifeiliaid dros dri mis, dyma'r driniaeth debygol y byddai milfeddyg yn ei defnyddio ar gyfer ysbaddu a thocio cynffonnau, gan roi anaesthesia ac analgesia yn briodol. Fel gyda phob dull, rhaid cael rheswm rhesymegol y gellir ei gyfiawnhau dros fynnu bod y llawdriniaeth yn cael ei chynnal.

**Haearn poeth**

Mae'r dull hwn o docio cynffonnau yn golygu torri'r gynffon drwy serio gan ddefnyddio dyfais fetel nadd wedi'i gwresogi sydd wedi'i dylunio at y diben hwn. Ystyrir bod y dull hwn yn achosi llai o boen na thocio cylch rwber oherwydd bod derbynyddion poen yn cael eu

dinistrio yn y meinweoedd a losgir, er ei fod yn dal i achosi mwy o sensitifrwydd i boen a phoen cronig (Atodiad C).

## Dulliau newydd

### ClipFitter

Mae'r dull hwn o ysbaddu a thocio cynffonnau yn golygu rhoi “clip” ar draws lled llawn y ceillgwd neu rhwng fertebrâu cynffon gan ddefnyddio gefelen lifer-cyfansawdd tra-chywir. Mae'n dynwared y “dull cyfunol” drwy aros ymlaen nes bydd y feinwe farw yn cael ei fwrw, fel cylch rwber, a gwasgu'r llinynnau sbermatig a'r cyflenwad nerfol, fel clamp. Mae hyn yn rhoi sêl effeithiol ac yn achosi i'r meinweoedd o dan y clip ddadsensiteiddio ar unwaith. Canfu astudiaeth ddiweddar a gomisiynwyd gan Defra (Atodiad C) fod y dull clipio mewn ŵyn ifanc yn lleihau poen acíwt yn sgil ysbaddu i lefel ŵyn heb eu hysbaddu. Roedd ysbaddu â clipiau hefyd yn llai poenus na'r arfer presennol o ddefnyddio cylchoedd rwber mewn ŵyn ifanc, hyd yn oed pan oedd hynny’n cael ei wneud gydag anesthetig a phoenliniarydd, ac mae'n debygol iawn o fod yn llai poenus na defnyddio cylch rwber mewn ŵyn hŷn. Gellir defnyddio clipiau hefyd yn lle cylchoedd rwber ar gyfer y dull ysbaddu ceillgwd byr. Achosodd tocio cynffonnau mewn ŵyn iau a hŷn lefel debyg o boen i ddefnyddio cylchoedd gydag anesthetig a phoenliniarydd. Arweiniodd y dull clipio hefyd at ddull gwell o wella clwyfau a lleihau poen cronig.

### Numnuts

Mae'r dull hwn o ysbaddu a thocio cynffonnau yn golygu defnyddio dyfais i chwistrellu anesthetig lleol i wddf neu gynffon y ceillgwd ar yr un pryd â gosod cylch rwber safonol. Canfu astudiaeth ddiweddar a gomisiynwyd gan Defra a oedd yn defnyddio Numnuts gyda phrocên (Atodiad C) y gall y dull hwn liniaru poen acíwt yn sgil tocio cynffonnau ond ei fod yn llai effeithiol yn erbyn poen acíwt yn sgil ysbaddu. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau eraill a gyhoeddwyd (Atodiad C).

### Bandiau Trwythedig

Canfuwyd bod cylchoedd rwber sydd wedi'u trwytho neu eu gorchuddio ag anesthetig lleol o'r enw lidocen yn achosi llai o boen difrifol na chylchoedd rwber safonol, ond gallant barhau i achosi mwy o boen acíwt na defnyddio cylch rwber safonol gydag anesthetig lleol wedi'i chwistrellu (Atodiad C). Dylid nodi hefyd nad yw lidocen wedi'i awdurdodi ar hyn o bryd i'w ddefnyddio ar ddefaid yn y DU; gweler yr adran “lleddfu poen ar gyfer triniaethau”.

## Stocmoniaeth

Mae dulliau stocmoniaeth da yn allweddol i sicrhau safonau uchel o ran lles anifeiliaid. Felly, mae'n bwysig iawn bod unrhyw un sy'n ysbaddu ac yn tocio cynffonnau yn gymwys ac wedi'i hyfforddi'n briodol i wneud hynny, er mwyn lleihau niwed. Fodd bynnag, dim ond milfeddyg ddylai gyflawni rhai triniaethau sy'n peri risg uwch ac y gwyddys eu bod yn achosi poen sylweddol.

### Cyfyngiadau oedran

Ar hyn o bryd, mae canllawiau Cod Ymarfer cyhoeddedig ar les defaid yn datgan na ddylid ysbaddu ŵyn nes bydd y bond rhwng mamogiaid ac ŵyn wedi'i sefydlu. Y rheswm am hyn yw bod poen acíwt yn sgil ysbaddu a thocio cynffonnau yn gallu meddiannu a gwanychu ŵyn ifanc, yn enwedig y rheini sy'n iau na 24 awr oed, fel eu bod yn methu â llyncu symiau amddiffynnol o golostrwm. Gall hyn roi ŵyn mewn mwy o berygl o glefyd a marwolaeth (Atodiad C). Gall rhai ffermwyr ysbaddu a thocio cynffonnau'n gynnar oherwydd y camsyniad bod ŵyn ifanc yn teimlo llai o boen na'u cymheiriaid hŷn, pan nad oes ganddynt efallai'r repertoire ymddygiadol i ddangos eu poen. Oherwydd y risgiau hyn, rydym yn cynnig gofyniad i ŵyn gael eu hysbaddu a'u tocio ar ôl 24 awr gyntaf eu hoes yn unig.

Mae sawl rheswm pam y gallai ffermwyr fod eisiau ysbaddu ŵyn a'u tocio pan fyddant yn hŷn. Mewn systemau bryniau, efallai y bydd ŵyn yn cael eu geni ar y bryn ac y bydd oedi cyn eu casglu er mwyn atal y posibilrwydd o gam-fagu, anffawd ac anafiadau. Fel arfer, mae ŵyn yn cael eu casglu, eu hysbaddu a'u tocio pan fyddant yn chwe wythnos oed ar gyfartaledd. Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod ysbaddu ŵyn hŷn drwy ddefnyddio cylchoedd yn gysylltiedig â datblygiad briwiau poenus, oherwydd maint cynyddol y ceillgwd, a all, ar ôl iddo gyfyngu, arwain at lid cronig, sepsis a phoen nes bydd y feinwe'n disgyn i ffwrdd ac yn gwella (Atodiad C).

Dylai'r penderfyniad ynghylch a yw'r achosion hyn o anffurfio yn angenrheidiol gael ei wneud yn gynharach ar gyfer diadelloedd tir isel a mwy dwys, gan nad yw'r risgiau o ganlyniad i gasglu'n gynnar yn berthnasol.

## 2. Rhoi meddyginiaeth lleddfu poen ar gyfer triniaethau

Os nad oes modd osgoi poen wrth ysbaddu neu docio cynffonnau, dylid cymryd camau i liniaru hynny. Mae tystiolaeth helaeth y gall defnyddio dulliau lleddfu poen byrhoedlog, fel **anesthetigion** lleol, a dulliau lleddfu poen hirhoedlog, megis **poenliniaryddion** fel cyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd (NSAIDs), fod yn effeithiol ar gyfer poen yn sgil ysbaddu a thocio cynffonnau. Mae Atodiad C yn amlinellu tystiolaeth wyddonol ar ddefnyddio anaestheteg a phoenliniaryddion ar gyfer gwahanol ddulliau. Byddai ein cynigion yn ei gwneud yn ofynnol i feddyginiaeth lleddfu poen gael ei rhoi mewn perthynas â dulliau penodol o ysbaddu a thocio cynffonnau y gwyddys eu bod yn achosi poen sylweddol.

Ar hyn o bryd, yr unig anesthetig lleol sydd wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio mewn defaid yn y DU yw procên, sy'n cael ei ffurfio ar y cyd ag adrenalin i'w wneud yn fwy effeithiol. Does dim NSAIDs wedi'u hawdurdodi. Fodd bynnag, mae'r rhaeadr filfeddygol, darpariaeth ddeddfwriaethol yn y Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol, yn caniatáu i feddyginiaethau milfeddygol sydd wedi'u hawdurdodi ar gyfer gwahanol rywogaethau sy'n cynhyrchu bwyd gael eu defnyddio mewn defaid er mwyn osgoi achosi dioddefaint annerbyniol mewn achosion lle nad oes cynhyrchion addas wedi'u hawdurdodi ar gyfer defaid. Mae'r llywodraeth wrthi'n adolygu darpar gyfryngau anesthetig a phoenliniaru i'w

defnyddio mewn ŵyn wrth ysbaddu a thocio cynffonnau ym Mhrydain Fawr er mwyn mynd i'r afael â'r prinder opsiynau triniaeth awdurdodedig sydd ar gael. Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys defnyddio lidocen, sef anesthetig lleol nad yw wedi'i awdurdodi ar hyn o bryd, nac yn cael ei argymell i'w ddefnyddio o dan y rhaeadr, mewn defaid yn y DU.

Mewn rhai amgylchiadau, caiff milfeddygon ragnodi meddyginiaeth lleddfu poen sy'n uwch na'r isafswm sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Er enghraifft, pan fydd ŵyn yn cael eu hysbaddu neu eu tocio pan yn hŷn a gallant fod mewn perygl o gael briwiau llidiol cronig mwy o faint.

# Cwestiynau'r ymgynghoriad

## Cyfrinachedd a Diogelu Data

### Trefn gwyno

Dylid cyflwyno pob cwyn am y broses ymgynghori i'r Cydlynydd Ymgynghori drwy e-bost: consultation.coordinator@defra.gov.uk. Er mwyn bodloni safon gwasanaeth Defra, ymatebir i bob cwyn o fewn 15 diwrnod i'w derbyn.

### Defnyddio a rhannu eich gwybodaeth

Mae sut rydym yn defnyddio eich data personol wedi'i nodi yn yr hysbysiad preifatrwydd ymarfer ymgynghori a galw am dystiolaeth, gyda'r newidiadau a ganlyn:

#### Gyda phwy ydym ni'n rhannu eich data personol?

Mae'r cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac felly bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei rhannu â swyddogion polisi perthnasol yn Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

### Gwybodaeth arall

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol ag Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet,.

## Amdanoch chi neu eich sefydliad

**1.a) Ydych chi am i'ch ymateb gael ei drin yn gyfrinachol (gofynnol)?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw

**1.b) Os mai 'Ydw' oedd eich ateb i'r cwestiwn hwn, nodwch eich rheswm/rhesymau.**

[Multiple line answer component]

**2. Beth yw eich enw?**

[Single line answer component]

**3. Beth yw eich cyfeiriad e-bost?**

[Email address answer component]

**4. Ydych chi’n ymateb fel sefydliad neu unigolyn (gofynnol)?**

- ❏ Unigolyn - Rydych chi'n ymateb gyda'ch barn bersonol, yn hytrach nag fel cynrychiolydd swyddogol busnes, cymdeithas fusnes neu sefydliad arall
- ❏ Sefydliad - Rydych yn ymateb yn swyddogol fel cynrychiolydd busnes, cymdeithas fusnes neu sefydliad arall

**5. Os ydych chi'n ymateb fel unigolyn yng Nghwestiwn 4, ble ydych chi wedi'ch lleoli/os ydych chi'n ymateb fel sefydliad yng Nghwestiwn 4, ble mae pencadlys eich sefydliad wedi'i leoli (gofynnol)?**

- ☐ Lloegr
- ☐ Cymru
- ☐ Yr Alban
- ☐ Gogledd Iwerddon
- ☐ Nid yn y DU (Ewrop)
- ☐ Y tu allan i Ewrop

**6. Os ydych chi'n ymateb fel sefydliad yng Nghwestiwn 4, beth yw enw eich sefydliad?**

[Single line answer component]

**7. Pa opsiwn sy'n disgrifio orau eich rheswm dros gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn? Dewiswch bob un sy’n berthnasol.**

- ❏ Academydd
- ❏ Sefydliadau lles anifeiliaid
- ❏ Defnyddiwr
- ❏ Cynllun gwarant fferm
- ❏ Sefydliad ffermio
- ❏ Marchnad da byw neu arwerthwr
- ❏ Awdurdod Lleol (ALl)
- ❏ Adwerthwr
- ❏ Lladd-dy defaid
- ❏ Ffermwr defaid
- ❏ Corff masnach

❑ Milfeddyg
❑ Arall - rhowch fanylion isod

[Single line answer component)

# Dulliau ysbaddu a thocio cynffonnau

## Ysbaddu a thocio cynffonnau llawfeddygol

### Ein cynnig/cynigion

Os na ellir osgoi poen sylweddol o ganlyniad i driniaeth, yna dylid cymryd camau i'w leddfu. Gan gydnabod y boen sylweddol a achosir gan y dull hwn, ac er mwyn sicrhau cysondeb ar draws gweinyddiaethau, rydym yn cynnig mai dim ond gyda anesthetig a phoenliniarydd effeithiol y gall ŵyn gael eu hysbaddu a'u tocio gan ddefnyddio cyllell neu lafn.

**Banciau ffeithiau (testun esboniadol y gellir ei agor a'i gau):**

- Beth yw'r dull hwn?
    - Mae'r dull hwn yn golygu ysbaddu neu docio cynffon drwy dorri â chyllell neu lafn. Ar gyfer ysbaddu, gall hyn olygu tynnu'r ceilliau'n llwyr drwy doriad yn y ceillgwd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio clampiau a chyllell gyda'i gilydd.
- A yw'r dull hwn yn achosi poen sylweddol?
    - Ystyrir bod ysbaddu a thocio cynffonnau'n llawfeddygol yn achosi llawer mwy o drallod nag unrhyw ddull arall, a chredir nad yw'n cael ei wneud mor aml ers datblygu cylchoedd rwber. Mae Atodiad C yn amlinellu tystiolaeth wyddonol ar y boen a achosir gan y dull hwn.
- Ydy lleddfu poen yn effeithiol?
    - Mae tystiolaeth helaeth y gall defnyddio dulliau lleddfu poen byrhoedlog, fel anesthetigion lleol, a dulliau lleddfu poen hirhoedlog, megis poenliniaryddion fel cyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd (NSAIDs), fod yn effeithiol ar gyfer poen yn sgil ysbaddu a thocio cynffonnau. Mae Atodiad C yn amlinellu tystiolaeth wyddonol ar ddefnyddio anaestheteg a phoenliniaryddion ar gyfer y dull hwn.
- Beth yw'r ddeddfwriaeth bresennol?
    - Ar hyn o bryd, gall unrhyw un sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (VSA) ysbaddu a thocio cynffonau ŵyn dan 3 mis yn llawfeddygol. Yn yr Alban, dim ond milfeddyg (PPR) gaiff wneud hyn. Mae angen anesthetig ar gyfer tocio cynffonau'n llawfeddygol yng Nghymru (MRW) a Lloegr (MRE), ond nid yn yr Alban na Gogledd Iwerddon.
    - Rhaid i ysbaddu ŵyn dros 3 mis oed drwy unrhyw ddull, gan gynnwys yn llawfeddygol, gael ei wneud gan filfeddyg (VSA) yn unig. Mae angen anesthetig ar gyfer y driniaeth hon yng Nghymru (MRE), Lloegr (MRW) a'r

Alban (PAA), ond nid Gogledd Iwerddon. Gweler “Terfynau Oedran” i weld ein cynigion ar ddisbaddu dros 3 mis.
  - Gall unrhyw berson sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (VSA) docio cynffonnau ŵyn dros 3 mis mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys yn llawfeddygol. Yn yr Alban, dim ond milfeddyg (PPR) gaiff wneud hyn. Mae angen anesthetig ar gyfer y driniaeth hon yng Nghymru (MRE), Lloegr (MRW) a'r Alban (PAA), ond nid Gogledd Iwerddon. Gweler “Terfynau Oedran” i weld ein cynigion ar docio cynffonau dros 3 mis.

**Nodwch i ba lefel rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiadau canlynol.**

**8.a) Ni ddylid caniatáu ysbaddu ŵyn yn llawfeddygol oni bai fod hynny'n cael ei wneud gan filfeddyg <u>gydag anesthetig a phoenliniarydd</u> effeithiol.**

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen anesthetig
- ☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen poenliniarydd
- ☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen milfeddyg
- ☐ Anghytuno - ni ddylid caniatáu'r dull hwn o dan unrhyw amodau
- ☐ Anghytuno - rheswm arall neu fwy nag un rheswm (nodwch isod)
- ☐ Ddim yn siŵr

**8.b) Esboniwch eich ateb.**

[Multiple line answer component]

**9.a) Ni ddylid caniatáu tocio cynffonau ŵyn yn llawfeddygol oni bai fod hynny'n cael ei wneud gan filfeddyg <u>gydag anesthetig a phoenliniarydd</u> effeithiol.**

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen anesthetig
- ☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen poenliniarydd
- ☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen milfeddyg
- ☐ Anghytuno - ni ddylid caniatáu'r dull hwn o dan unrhyw amodau
- ☐ Anghytuno - rheswm arall neu fwy nag un rheswm (nodwch isod)
- ☐ Ddim yn siŵr

**9.b) Esboniwch eich ateb.**

[Multiple line answer component]

## Ysbaddu cylch rwber a thocio cynffonnau hyd at 3 mis

### Ein cynnig/cynigion

Os na ellir osgoi poen sylweddol o ganlyniad i driniaeth, yna dylid cymryd camau i'w leddfu. Gan gydnabod y boen sylweddol a achosir gan y dull hwn a'r diffyg tystiolaeth bod anifeiliaid iau yn profi llai o boen na'u cymheiriaid hŷn, rydym yn cynnig mai dim ond gydag anesthetig a phoenliniarydd effeithiol y gellir disbaddu a thocio cynffonau ŵyn hyd at 3 mis â chylchoedd rwber, a chael gwared ar y terfyn oedran 7 diwrnod. Rydym yn cynnig ymestyn y terfyn oedran i gynnwys ŵyn hyd at 3 mis oed. Byddai hyn hefyd yn berthnasol i ddefnyddio dyfais Numnuts, bandiau trwythedig a'r dull ceillgwd byr.

| | Oedran | Gan Bwy | Lleddfu Poen |
|---|---|---|---|
| Deddfwriaeth gyfredol yng Nghymru a Lloegr | Gellir ei roi i anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed | Gan stocmon dros 18 oed | Dim angen. |
| Deddfwriaeth bresennol yn yr Alban | Gellir ei roi i anifail hyd at 3 mis oed | Gan stocmon dros 18 oed | Angen anesthetig dros 7 diwrnod |
| Deddfwriaeth bresennol yng Ngogledd Iwerddon | Gellir ei roi i anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed | Gan stocmon dros 18 oed | Dim angen. |
| **Cynnig** | **Gellir ei roi i anifail hyd at 3 mis oed** | **Gan stocmon dros 18 oed** | **Mae angen anesthetig a phoenliniarydd effeithiol** |

**Banciau ffeithiau (testun esboniadol y gellir ei agor a'i gau):**

- Beth yw'r dull hwn?
  - Mae ysbaddu a thocio cynffonnau fel arfer yn cael eu cyflawni gan ddefnyddio cylchoedd rwber heb anaesthesia nac analgesia. Mae'r dull hwn yn golygu defnyddio elastrigydd i osod cylch rwber tynn o amgylch gwddf y ceillgwd neu gynffon. Mae hyn yn torri'r cyflenwad gwaed ac yn achosi i'r feinwe o dan y cylch rwber grebachu a syrthio i ffwrdd.
- A yw'r dull hwn yn achosi poen sylweddol?
  - Mae tystiolaeth helaeth y gall ŵyn brofi poen acíwt am hyd at 4 awr, wrth i'r cylch rwber gyfangu'n araf i'w faint gwreiddiol, a phoen cronig am fwy na 40 diwrnod, wrth i'r meinweoedd gael eu bwrw a'r clwyfau wella. Mae Atodiad C yn amlinellu tystiolaeth wyddonol ar y boen a achosir gan y dull hwn.
- Pam mae Numnuts, bandiau trwythedig ac ysbaddu ceillgwd byr wedi'u cynnwys?
  - Mae tystiolaeth yn dangos bod disbaddu â Numnuts yn gallu achosi cymaint o boen acíwt â chylch rwber heb anesthetig. Er bod Numnuts yn gallu

lleihau'r boen acíwt a achosir gan docio cynffonnau, mae dal angen poenliniaryddion fel cyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd (NSAIDs) i liniaru poen gweddilliol a mwy hirhoedlog o ganlyniad i ddefnyddio cylch rwber. Mae Atodiad C yn amlinellu tystiolaeth wyddonol ar y boen a achosir gan y dull hwn.
    - Mae tystiolaeth yn dangos, er bod ysbaddu ceillgwd byr yn gallu achosi llai o boen acíwt nag ysbaddu cylch rwber safonol, mae'n dal i achosi mwy o boen nag ysbaddu cylch rwber safonol gydag anesthetig lleol wedi'i chwistrellu. Mae Atodiad C yn amlinellu tystiolaeth wyddonol ar y boen a achosir gan y dull hwn.
    - Canfuwyd bod cylchoedd rwber sydd wedi'u trwytho neu eu gorchuddio ag anesthetig lleol o'r enw lidocen yn achosi llai o boen difrifol na chylchoedd rwber safonol, ond gallant barhau i achosi mwy o boen acíwt na defnyddio cylch rwber safonol gydag anesthetig lleol wedi'i chwistrellu. Mae Atodiad C yn amlinellu tystiolaeth wyddonol ar y boen a achosir gan y dull hwn. Nid yw Lidocen wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio mewn defaid yn y DU ar hyn o bryd.
- Ydy lleddfu poen yn effeithiol?
    - Mae tystiolaeth helaeth y gall defnyddio dulliau lleddfu poen byrhoedlog, fel anesthetigion lleol, a dulliau lleddfu poen hirhoedlog, megis poenliniaryddion fel cyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd (NSAIDs), fod yn effeithiol ar gyfer poen yn sgil ysbaddu a thocio cynffonnau. Mae Atodiad C yn amlinellu tystiolaeth wyddonol ar ddefnyddio anaestheteg a phoenliniaryddion ar gyfer y dull hwn.
- Beth yw'r sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol?
    - Ar hyn o bryd, gellir ysbaddu a thocio cynffonnau ŵyn o dan 7 diwrnod â chylchoedd rwber heb leddfu poen yng Nghymru (MRW), Lloegr (MRE), yr Alban (PAA) a Gogledd Iwerddon (WAR). Yn yr Alban, gellir defnyddio'r dull hwn hyd at 3 mis oed gydag anesthetig (PAA). Ym mhob gweinyddiaeth, gall unrhyw un sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn ei gyflawni (VSA).
- Pam bod terfyn oedran o 7 diwrnod?
    - Mae'r terfyn oedran presennol o 7 diwrnod ar ddefnyddio cylchoedd rwber yn dyddio'n ôl i'r adeg pan gredid bod anifeiliaid iau o wahanol rywogaethau yn teimlo llai o boen nag anifeiliaid hŷn. Mae tystiolaeth fwy diweddar yn awgrymu bod ŵyn ifanc yr un mor sensitif neu hyd yn oed yn fwy sensitif i boen nag ŵyn hŷn, ond efallai nad oes ganddynt y repertoire ymddygiadol i fynegi'r boen hon.
    - Gall y cyfyngiad hwn gymell ffermwyr i ysbaddu ŵyn cyn iddynt benderfynu a fyddant yn cael eu cadw y tu hwnt i'r glasoed, gan arwain at ysbaddu llawer o ŵyn gwryw yn ddiangen.

**Nodwch i ba lefel rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol.**

**10.a) Dim ond <u>gydag anesthetig a phoenliniarydd</u> effeithiol y dylid caniatáu i ŵyn hyd at 3 mis oed gael eu hysbaddu â chylchoedd rwber.**

☐ Cytuno
☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen anesthetig

- ☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen poenliniarydd
- ☐ Anghytuno - ni ddylid caniatáu'r dull hwn am gyn hired â 3 mis
- ☐ Anghytuno - ni ddylid caniatáu'r dull hwn o dan unrhyw amodau
- ☐ Anghytuno - rheswm arall neu fwy nag un rheswm (nodwch isod)
- ☐ Ddim yn siŵr

**10.b) Esboniwch eich ateb.**

[Multiple line answer component]

**11.a) Dim ond <u>gydag anesthetig a phoenliniarydd</u> effeithiol y dylid caniatáu tocio cynffonau ŵyn hyd at 3 mis oed â chylchoedd rwber.**

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen anesthetig
- ☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen poenliniarydd
- ☐ Anghytuno - ni ddylid caniatáu'r dull hwn am gyn hired â 3 mis
- ☐ Anghytuno - ni ddylid caniatáu'r dull hwn o dan unrhyw amodau
- ☐ Anghytuno - rheswm arall neu fwy nag un rheswm (nodwch isod)
- ☐ Ddim yn siŵr

**11.b) Esboniwch eich ateb.**

[Multiple line answer component]

**12. Pa gamau sydd eu hangen gan y llywodraeth a rhanddeiliaid perthnasol i gefnogi'r diwydiant i symud oddi wrth y dull hwn?**

[Multiple line answer component]

## Ysbaddu a chlampiau hyd at 3 mis oed

### Ein cynnig/cynigion

Os na ellir osgoi poen sylweddol o ganlyniad i driniaeth, yna dylid cymryd camau i'w leddfu. Gan gydnabod y boen a achosir gan y dull hwn, rydym yn cynnig mai dim ond gyda phoenliniarydd effeithiol y gellir ysbaddu ŵyn hyd at 3 mis oed â chlampiau. Er y byddai anesthetig lleol a phoenliniarydd yn arfer delfrydol ar gyfer ysbaddu â chlampiau, y prif bryder o ran lles yw'r boen llidiol tymor hwy a achosir gan y dull hwn. Felly, at ddibenion ymarferol, rydyn ni'n cynnig bod poenliniaryddion yn well nag anesthetig.

| | Oedran | Gan Bwy | Lleddfu Poen |
|---|---|---|---|
| Deddfwriaeth gyfredol yng Nghymru a Lloegr | Gellir ei roi i anifail hyd at 3 mis oed | Gan stocmon dros 18 oed | Dim angen. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Deddfwriaeth bresennol yn yr Alban | Gellir ei roi i anifail hyd at 3 mis oed | Gan stocmon dros 18 oed | Dim angen. |
| Deddfwriaeth bresennol yng Ngogledd Iwerddon | Gellir ei roi i anifail hyd at 3 mis oed | Gan stocmon dros 18 oed | Dim angen |
| **Cynnig** | **Gellir ei roi i anifail hyd at 3 mis oed** | **Gan stocmon dros 18 oed** | **Mae angen poenliniarydd effeithiol** |

**Banciau ffeithiau (testun esboniadol y gellir ei agor a'i gau):**

- Beth yw'r dull hwn?
    - Mae'r dull hwn o disbaddu yn golygu defnyddio clamp i falu'r llinynnau sbermatig a'r pibellau gwaed yng ngwddf y ceillgwd. Gellir rhoi'r clamp ar bob llinyn sbermatig yn unigol, neu ar draws gwddf cyfan y ceillgwd, fel bod y meinweoedd o dan y wasgfa yn marw ac yn disgyn i ffwrdd. Mae angen gweithredwr medrus i osod clampiau ac mae perygl o ysbaddu aflwyddiannus neu anaf os caiff ei ddefnyddio'n amhriodol.
- A yw'r dull hwn yn achosi poen sylweddol?
    - Er ei fod yn dal yn boenus, ystyrir bod y dull hwn yn achosi llai o boen nag ysbaddu â chylch rwber oherwydd bod y nerfau'n cael eu gwasgu wrth osod y clamp. Gall achosi llai o boen acíwt "na ellir ei osgoi" na chylchoedd rwber a gwella'r broses o wella clwyfau o'i gymharu â chylchoedd rwber. Mae Atodiad C yn amlinellu tystiolaeth wyddonol ar y boen a achosir gan y dull hwn.
- Ydy lleddfu poen yn effeithiol?
    - Mae tystiolaeth helaeth y gall defnyddio dulliau lleddfu poen byrhoedlog, fel anesthetigion lleol, a dulliau lleddfu poen hirhoedlog, megis poenliniaryddion fel cyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd (NSAIDs), fod yn effeithiol ar gyfer poen yn sgil ysbaddu a thocio cynffonnau. Mae Atodiad C yn amlinellu tystiolaeth wyddonol ar ddefnyddio anaestheteg a phoenliniaryddion ar gyfer y dull hwn.
- Beth yw'r sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol?
    - Ym mhob gweinyddiaeth, gall unrhyw un dros ddeunaw oed (VSA) ysbaddu ŵyn hyd at 3 mis oed heb leddfu poen.

**Nodwch i ba lefel rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol:**

**13.a) Dim ond <u>gyda phoenliniarydd</u> effeithiol y dylid caniatáu i ŵyn hyd at 3 mis oed gael eu hysbaddu â chlampiau.**

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno - dylai fod angen anesthetig hefyd
- ☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen poenliniarydd

- ☐ Anghytuno - ni ddylid caniatáu'r dull hwn o dan unrhyw amodau
- ☐ Anghytuno - rheswm arall neu fwy nag un rheswm (nodwch isod)
- ☐ Ddim yn siŵr

**13.b) Esboniwch eich ateb.**

[Multiple line answer component]

## Ysbaddu a thocio cynffonnau dull cyfun hyd at 3 mis

### Ein cynnig/cynigion

Os na ellir osgoi poen sylweddol o ganlyniad i driniaeth, yna dylid cymryd camau i'w leddfu. Gan gydnabod y boen sylweddol y gall y dull hwn ei hachosi, rydym yn cynnig mai dim ond gydag anesthetig a phoenliniarydd effeithiol y gellir defnyddio dull cyfun o ddisbaddu ŵyn a thocio cynffonnau ŵyn hyd at 3 mis oed.

| | Oedran | Gan Bwy | Lleddfu Poen |
|---|---|---|---|
| Deddfwriaeth gyfredol yng Nghymru a Lloegr | Gellir ei roi i anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed | Gan stocmon dros 18 oed | Dim angen |
| Deddfwriaeth bresennol yn yr Alban | Gellir ei roi i anifail hyd at 3 mis oed | Gan stocmon dros 18 oed | Angen anesthetig dros 7 diwrnod |
| Deddfwriaeth bresennol yng Ngogledd Iwerddon | Gellir ei roi i anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed | Gan stocmon dros 18 oed | Dim angen |
| **Cynnig** | **Gellir ei roi i anifail hyd at 3 mis oed** | **Gan stocmon dros 18 oed** | **Mae angen anesthetig a phoenliniarydd effeithiol** |

**Banciau ffeithiau (testun esboniadol y gellir ei agor a'i gau):**

- Beth yw'r dull hwn?
    - Mae'r dull hwn yn gyfuniad o gylchoedd rwber a chlampiau (er enghraifft, Burdizzo). Mae'n darparu manteision cylch rwber (sêl effeithiol) a chlamp (lleddfu poen). Fodd bynnag, mae cyflawni dwy driniaeth ar bob oen yn feichus ac yn cymryd llawer o amser. Mae'r dull hwn yn fwyaf effeithiol pan fydd y clamp yn cael ei ddefnyddio unwaith ar draws lled llawn y ceillgwd neu'r gynffon, er mwyn atal poen rhag cael ei drosglwyddo o feinweoedd o dan y wasgfa.
- A yw'r dull hwn yn achosi poen sylweddol?

    - Ystyrir bod y dull hwn yn achosi llai o boen nag ysbaddu â chylch rwber oherwydd bod y nerfau'n cael eu gwasgu wrth osod y clamp. Fodd bynnag, mae tystiolaeth y gall ysbaddu drwy ddull cyfunol achosi cymaint o boen acíwt ag a achosir gan gylchoedd rwber yn unig, gyda lliniaru poen yn dibynnu ar sut y defnyddir y clamp (er enghraifft, lleoliad ac am faint o eiliadau y'i defnyddir). Mae Atodiad C yn amlinellu tystiolaeth wyddonol ar y boen a achosir gan y dull hwn.
- Ydy lleddfu poen yn effeithiol?
    - Mae tystiolaeth helaeth y gall defnyddio dulliau lleddfu poen byrhoedlog, fel anesthetigion lleol, a dulliau lleddfu poen hirhoedlog, megis poenliniaryddion fel cyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd (NSAIDs), fod yn effeithiol ar gyfer poen yn sgil ysbaddu a thocio cynffonnau. Mae Atodiad C yn amlinellu tystiolaeth wyddonol ar ddefnyddio anaestheteg ar gyfer y dull hwn.
- Beth yw'r sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol?
    - Mae ysbaddu a thocio cynffonnau drwy ddull cyfun yn golygu defnyddio cylch rwber, felly ar hyn o bryd gellir ei wneud ar ŵyn o dan 7 diwrnod heb leddfu poen yng Nghymru (MRW), Lloegr (MRE), yr Alban (PAA) a Gogledd Iwerddon (WAR). Yn yr Alban, gellir defnyddio'r dull hwn hyd at 3 mis oed gydag anesthetig (PAA). Ym mhob gweinyddiaeth, gall unrhyw un sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn ei gyflawni (VSA).

**Nodwch i ba lefel rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol.**

**14.a) Dim ond <u>gydag anesthetig a phoenliniarydd</u> effeithiol y dylid caniatáu i ŵyn hyd at 3 mis oed gael eu hysbaddu drwy ddull cyfun.**

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen anesthetig
- ☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen poenliniarydd
- ☐ Anghytuno - ni ddylid caniatáu'r dull hwn am gyn hired â 3 mis
- ☐ Anghytuno - ni ddylid caniatáu'r dull hwn o dan unrhyw amodau
- ☐ Anghytuno - rheswm arall neu fwy nag un rheswm (nodwch isod)
- ☐ Ddim yn siŵr

**14.b) Esboniwch eich ateb.**

[Multiple line text]

**15.a) Dim ond <u>gydag anesthetig a phoenliniarydd</u> effeithiol y dylid caniatáu tocio cynffonau ŵyn hyd at 3 mis oed drwy ddull cyfun.**

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen anesthetig
- ☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen poenliniarydd
- ☐ Anghytuno - ni ddylid caniatáu'r dull hwn am gyn hired â 3 mis
- ☐ Anghytuno - ni ddylid caniatáu'r dull hwn o dan unrhyw amodau

- Anghytuno - rheswm arall neu fwy nag un rheswm (nodwch isod)
- Ddim yn siŵr

**15.b) Esboniwch eich ateb.**

[Multiple line text]

## Ysbaddu a thocio cynffonnau hyd at 3 mis oed

### Ein cynnig/cynigion

Os oes angen triniaeth sy'n achosi poen sylweddol, dylid defnyddio dull arall, llai poenus os oes modd. Er enghraifft, byddai newid y dull clipio am y dull cylch rwber yn lleihau'n sylweddol y boen sy'n gysylltiedig ag ysbaddu a thocio cynffonnau. Gan gydnabod hyn, ac er mwyn sicrhau cysondeb ar draws gweinyddiaethau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, rydym yn cynnig caniatáu i ysbaddu a thocio cynffonau ŵyn hyd at 3 mis oed gyda chlip maint priodol ar gyfer maint yr oen heb unrhyw ofyniad i leddfu poen, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn yr Alban. Er y gallai'r arfer delfrydol gynnwys defnyddio y dull clipio gydag anesthetig lleol wedi'i chwistrellu a phoenliniarydd, rydym yn cydnabod bod y dull clipio ar ei ben ei hun yn llai poenus na'r arfer presennol o ddefnyddio cylch rwber mewn ŵyn ifanc a'i fod yn debygol iawn o fod yn llai poenus na defnyddio cylch rwber, a ddefnyddir yn eang mewn ŵyn hŷn, yn ogystal â llai o broblemau gyda chlwyfau. Am y rheswm hwn, nid ydym yn cynnig gorfodi defnyddio dulliau lleddfu poen er mwyn darparu ateb ymarferol i ffermwyr sy'n llai niweidiol i les.

| | Oedran | Gan Bwy | Lleddfu Poen |
|---|---|---|---|
| Deddfwriaeth gyfredol yng Nghymru a Lloegr | Gellir ei roi i anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed | Gan stocmon dros 18 oed | Dim angen |
| Deddfwriaeth bresennol yn yr Alban | Gellir ei roi i anifail hyd at 3 mis oed | Gan stocmon dros 18 oed | Dim angen |
| Deddfwriaeth bresennol yng Ngogledd Iwerddon | Gellir ei roi i anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed | Gan stocmon dros 18 oed | Dim angen |
| **Cynnig** | **Gellir ei gyflawni ar anifail hyd at 3 mis oed gyda chlip maint priodol ar gyfer maint yr oen** | **Gan stocmon dros 18 oed** | **Dim angen** |

**Banciau ffeithiau (testun esboniadol y gellir ei agor a'i gau):**

- Beth yw'r dull hwn?

    - Mae'r dull hwn o ysbaddu a thocio cynffonnau yn golygu rhoi “clip” ar draws lled llawn y ceillgwd neu rhwng fertebrâu cynffon gan ddefnyddio gefelen lifer-cyfansawdd tra-chywir. Mae'n dynwared y “dull cyfunol” drwy aros ymlaen nes bydd y feinwe farw yn cael ei fwrw, fel cylch rwber, a gwasgu'r llinynnau sbermatig a'r cyflenwad nerfol, fel clamp. Mae hyn yn rhoi sêl effeithiol ac yn achosi i'r meinweoedd o dan y clip ddadsensiteiddio ar unwaith.
- A yw'r dull hwn yn achosi poen sylweddol?
    - Canfu astudiaeth ddiweddar a gomisiynwyd gan Defra (Atodiad C) fod y dull clipio mewn ŵyn ifanc yn lleihau poen acíwt yn sgil ysbaddu i lefel ŵyn heb eu hysbaddu. Roedd ysbaddu â chlipiau hefyd yn llai poenus na'r arfer presennol o ddefnyddio cylchoedd rwber mewn ŵyn ifanc, hyd yn oed pan oedd hynny’n cael ei wneud gydag anesthetig a phoenliniarydd, ac mae'n debygol iawn o fod yn llai poenus na defnyddio cylch rwber mewn ŵyn hŷn. Achosodd tocio cynffonnau mewn ŵyn iau a hŷn lefel debyg o boen i ddefnyddio cylchoedd gydag anesthetig a phoenliniarydd. Arweiniodd y dull clipio hefyd at ddull gwell o wella clwyfau a lleihau poen cronig.
- Ydy lleddfu poen yn effeithiol?
    - Nid oes astudiaethau ar ddefnyddio anesthetig ac analgesia gyda'r dull hwn.
- Beth yw'r sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol?
    - Ystyrir bod ClipFitter yn ddyfais newydd sydd â modd gweithredu nas rhagwelwyd pan oedd y ddeddfwriaeth a oedd yn cyfyngu ar ddefnyddio cylchoedd rwber, neu ddyfeisiau eraill i gyfyngu ar lif y gwaed, yn cael ei datblygu.

**Nodwch i ba lefel rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiadau canlynol.**

**16.a) Dylid caniatáu i ŵyn hyd at 3 mis oed gael eu hysbaddu â chlip <u>heb anesthetig a phoenliniarydd</u> effeithiol.**

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno - dylai fod angen anesthetig
- ☐ Anghytuno - dylai fod angen poenliniarydd
- ☐ Anghytuno - ni ddylid caniatáu'r dull hwn o dan unrhyw amodau
- ☐ Anghytuno - rheswm arall neu fwy nag un rheswm (nodwch isod)
- ☐ Ddim yn siŵr

**16.b) Esboniwch eich ateb.**

[Multiple line answer component]

**17.a) Dylid caniatáu tocio cynffonau ŵyn hyd at 3 mis oed â chlip <u>heb anesthetig a phoenliniarydd</u> effeithiol.**

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno - dylai fod angen anesthetig
- ☐ Anghytuno - dylai fod angen poenliniarydd

- ☐ Anghytuno - ni ddylid caniatáu'r dull hwn o dan unrhyw amodau
- ☐ Anghytuno - rheswm arall neu fwy nag un rheswm (nodwch isod)
- ☐ Ddim yn siŵr

**17.b) Esboniwch eich ateb.**

[Multiple line answer component]

## Tocio cynffonnau â haearn poeth hyd at 3 mis oed

### Ein cynnig/cynigion

Os na ellir osgoi poen sylweddol o ganlyniad i driniaeth, yna dylid cymryd camau i'w leddfu. Gan gydnabod y boen a achosir gan y dull hwn, ac i sicrhau cysondeb ar draws gweinyddiaethau, rydym yn cynnig mai dim ond gydag anesthetig a phoenliniarydd effeithiol y gellir tocio cynffonau ŵyn hyd at 3 mis oed â haearn poeth.

| | Oedran | Gan Bwy | Lleddfu Poen |
|---|---|---|---|
| Deddfwriaeth gyfredol yng Nghymru a Lloegr | Gellir ei roi i anifail hyd at 3 mis oed | Gan stocmon dros 18 oed | Angen anesthetig |
| Deddfwriaeth bresennol yn yr Alban | Gellir ei roi i anifail hyd at 3 mis oed | Gan stocmon dros 18 oed | Dim angen |
| Deddfwriaeth bresennol yng Ngogledd Iwerddon | Gellir ei roi i anifail hyd at 3 mis oed | Gan stocmon dros 18 oed | Dim angen |
| **Cynnig** | **Gellir ei roi i anifail hyd at 3 mis oed** | **Gan stocmon dros 18 oed** | **Mae angen anesthetig a phoenliniarydd effeithiol** |

**Banciau ffeithiau (testun esboniadol y gellir ei agor a'i gau):**

- Beth yw'r dull hwn?
  - Mae'r dull hwn o docio cynffonnau yn golygu torri'r gynffon drwy serio gan ddefnyddio dyfais fetel nadd wedi'i gwresogi sydd wedi'i dylunio at y diben hwn.
- A yw'r dull hwn yn achosi poen sylweddol?
  - Ystyrir bod y dull hwn yn achosi llai o boen nag ysbaddu cylch rwber oherwydd bod derbynyddion poen yn cael eu dinistrio yn y meinweoedd a losgir, er ei fod yn dal i achosi llid a mwy o sensitifrwydd i boen. Mae Atodiad C yn amlinellu tystiolaeth wyddonol ar y boen a achosir gan y dull hwn.
- Ydy lleddfu poen yn effeithiol?

    - Mae tystiolaeth helaeth y gall defnyddio dulliau lleddfu poen byrhoedlog, fel anesthetigion lleol, a dulliau lleddfu poen hirhoedlog, megis poenliniaryddion fel cyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd (NSAIDs), fod yn effeithiol ar gyfer poen yn sgil ysbaddu a thocio cynffonnau. Mae Atodiad C yn amlinellu tystiolaeth wyddonol ar ddefnyddio anaestheteg a phoenliniaryddion ar gyfer y dull hwn.
- Beth yw'r sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol?
    - Ym mhob gweinyddiaeth, gall unrhyw un sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn (VSA) docio cynffonau ŵyn hyd at 3 mis oed â haearn poeth. Mae angen anesthetig ar gyfer y driniaeth hon yng Nghymru (MRW) a Lloegr (MRE), ond nid yn yr Alban na Gogledd Iwerddon.

**Nodwch i ba lefel rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol.**

**18.a) Dim ond <u>gydag anesthetig a phoenliniarydd</u> effeithiol y dylid caniatáu tocio cynffonau ŵyn hyd at 3 mis oed â haearn poeth.**

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen anesthetig
- ☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen poenliniarydd
- ☐ Anghytuno - ni ddylid caniatáu'r dull hwn o dan unrhyw amodau
- ☐ Anghytuno - rheswm arall neu fwy nag un rheswm (nodwch isod)
- ☐ Ddim yn siŵr

**18.b) Esboniwch eich ateb.**

[Multiple line answer component]

## Hyfforddiant stocmoniaeth

Rydym yn ymwybodol bod stocmoniaeth yn ffactor allweddol o ran sicrhau safonau uchel o ran lles anifeiliaid. Felly, mae'n bwysig iawn bod unrhyw un sy'n ysbaddu ac yn tocio cynffonnau yn gymwys ac wedi'i hyfforddi'n briodol i wneud hynny, er mwyn lleihau niwed.

**Ein cynnig/cynigion**

I gydnabod effaith stocmoniaeth dda ar les anifeiliaid, rydym yn cynnig mai dim ond person sydd wedi cael gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant addas a digonol, fel ei fod yn gymwys ac wedi'i hyfforddi'n briodol i gyflawni'r driniaeth, gaiff ysbaddu a thocio cynffonnau.

**19.a) Nodwch i ba lefel rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: Dim ond stocmon cymwys a hyfforddedig ddylai ysbaddu a thocio cynffonnau ŵyn.**

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Ddim yn siŵr

**19.b) Esboniwch eich ateb.**

[Multiple line answer component]

**20. Beth sy'n gwneud stocmon yn gymwys a hyfforddedig? Dewiswch bob un sy’n berthnasol.**

- ☐ Hyfforddiant ar y fferm
- ☐ Hyfforddiant dan gontract (h.y. wedi'i drefnu'n allanol)
- ☐ Achrediad ffurfiol
- ☐ Mynediad at brotocolau (h.y. ar gyfer lleddfu poen)
- ☐ Arall - rhowch fanylion isod

[Multiple line answer component]

# Cyfyngiadau oedran

## Ysbaddu a thocio cynffonnau mewn ŵyn ifanc

### Ein cynnig/cynigion

Gan gydnabod y risg o ysbaddu a thocio cynffonnau i ŵyn ifanc, rydym yn cynnig mai dim ond ar ôl 24 awr gyntaf bywyd y gellir ysbaddu a thocio cynffonnau.

**Banciau ffeithiau (testun esboniadol y gellir ei agor a'i gau):**

- Beth yw risgiau'r triniaethau hyn i ŵyn dan 24 oed?
    - Mae poen acíwt yn sgil ysbaddu a thocio cynffonnau yn gallu meddiannu a gwanychu ŵyn ifanc, yn enwedig y rheini sy'n iau na 24 awr oed, fel eu bod yn methu â llyncu symiau amddiffynnol o golostrwm. Gall hyn roi ŵyn mewn mwy o berygl o glefyd a marwolaeth. Mae tystiolaeth hefyd y gall ysbaddu cynnar (yn un diwrnod oed) gynyddu canfyddiad o boen yn y dyfodol. Mae Atodiad C yn amlinellu tystiolaeth wyddonol ar risgiau'r triniaethau hyn i ŵyn dan 24 oed.
- Pam fyddai'r triniaethau hyn yn cael eu cyflawni ar ŵyn dan 24 oed?
    - Gall rhai ffermwyr ysbaddu a thocio cynffonnau'n gynnar oherwydd y camsyniad bod ŵyn ifanc yn teimlo llai o boen na'u cymheiriaid hŷn, pan nad oes ganddynt efallai'r repertoire ymddygiadol i ddangos eu poen. Gall hyn hefyd gael ei ysgogi gan y terfyn 7 diwrnod ar gyfer ysbaddu a thocio cynffonnau cylch rwber yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac ar gyfer ysbaddu a thocio cynffonnau cylch rwber heb anesthetig yn yr Alban.
- Beth yw'r sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol?
    - Ar hyn o bryd, mae canllawiau cyhoeddedig ar les defaid yn datgan na ddylid ysbaddu ŵyn nes bydd y bond rhwng mamogiaid ac ŵyn wedi'i sefydlu. Fodd bynnag, nid oes isafswm oedran cyfreithiol ar gyfer y triniaethau hyn o dan unrhyw weinyddiaeth.

**Nodwch i ba lefel rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol.**

**21.a) Dim ond ar ôl 24 awr gyntaf bywyd y dylid caniatáu ysbaddu ŵyn.**

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Ddim yn siŵr

**21.b) Esboniwch eich ateb.**

[Multiple line answer component]

**22.a) Dim ond ar ôl 24 awr gyntaf bywyd y dylid caniatáu tocio cynffonnau ŵyn.**

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Ddim yn siŵr

**22.b) Esboniwch eich ateb.**

[Multiple line answer component]

## Ysbaddu a thocio cynffonnau dros 3 mis oed

### Ein cynnig/cynigion

Gan gydnabod y risgiau y mae'r driniaeth hon yn eu hachosi i anifeiliaid hŷn, ac er mwyn sicrhau cysondeb ar draws gweinyddiaethau, rydym yn cynnig mai dim ond gan filfeddyg a gydag anesthetig a phoenliniarydd effeithiol y gellir ysbaddu a thocio cynffonnau ŵyn dros 3 mis oed.

| | Gan Bwy | Lleddfu Poen |
|---|---|---|
| **Ysbaddu** | | |
| Deddfwriaeth gyfredol yng Nghymru a Lloegr | Milfeddyg yn unig | Angen anesthetig |
| Deddfwriaeth bresennol yn yr Alban | Milfeddyg yn unig | Angen anesthetig |
| Deddfwriaeth bresennol yng Ngogledd Iwerddon | Milfeddyg yn unig | Dim angen |
| **Tocio cynffonnau** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Deddfwriaeth gyfredol yng Nghymru a Lloegr | Stocmon dros 18 oed | Dim angen |
| Deddfwriaeth bresennol yn yr Alban | Milfeddyg yn unig | Angen anesthetig |
| Deddfwriaeth bresennol yng Ngogledd Iwerddon | Stocmon dros 18 oed | Dim angen |
| **Cynnig** | **Milfeddyg yn unig** | **Mae angen anesthetig a phoenliniarydd effeithiol** |

**Banciau ffeithiau (testun esboniadol y gellir ei agor a'i gau):**

- Beth yw risgiau'r triniaethau hyn i ŵyn hŷn?
    - Mae ysbaddu ŵyn hŷn drwy ddefnyddio cylchoedd yn gysylltiedig â datblygiad briwiau poenus, oherwydd maint cynyddol y ceillgwd, a all, ar ôl iddo gyfyngu, arwain at lid cronig, sepsis a phoen nes bydd y feinwe'n disgyn i ffwrdd ac yn gwella. Mae Atodiad C yn amlinellu tystiolaeth wyddonol ar risgiau'r triniaethau hyn i ŵyn hŷn.
- Pam fyddai'r triniaethau hyn yn cael eu cynnal ar ŵyn hŷn?
    - Mae sawl rheswm pam y gallai ffermwyr fod eisiau ysbaddu ŵyn a'u tocio pan fyddant yn hŷn. Mewn systemau bryniau, efallai y bydd ŵyn yn cael eu geni ar y bryn ac y bydd oedi cyn eu casglu er mwyn atal y posibilrwydd o gam-fagu, anffawd ac anafiadau. Fel arfer, mae ŵyn yn cael eu casglu, eu hysbaddu a'u tocio pan fyddant yn chwe wythnos oed ar gyfartaledd.
- Beth yw'r sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol?
    - Ym mhob gweinyddiaeth, dim ond milfeddyg (VSA) gaiff ysbaddu ŵyn dros 3 mis oed. Mae angen anesthetig ar gyfer y driniaeth hon yng Nghymru (MRE), Lloegr (MRW) a'r Alban (PAA), ond nid Gogledd Iwerddon.
    - Gall unrhyw berson dros ddeunaw oed yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (VSA) docio cynffonnau ŵyn dros 3 mis oed. Yn yr Alban, dim ond milfeddyg (PPR) gaiff wneud hyn. Mae angen anesthetig ar gyfer y driniaeth hon yng Nghymru (MRE), Lloegr (MRW) a'r Alban (PAA), ond nid Gogledd Iwerddon.

**Nodwch i ba lefel rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol.**

**23.a) Ni ddylid caniatáu ysbaddu ŵyn dros 3 mis oed oni bai fod hynny'n cael ei wneud gan filfeddyg gydag anesthetig a phoenliniarydd effeithiol.**

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen anesthetig
- ☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen poenliniarydd

- ☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen milfeddyg
- ☐ Anghytuno - ni ddylid caniatáu ysbaddu dros 3 mis oed
- ☐ Anghytuno - rheswm arall neu fwy nag un rheswm (nodwch isod)
- ☐ Ddim yn siŵr

**23.b) Esboniwch eich ateb.**

[Multiple line answer component]

**24.a) Ni ddylid caniatáu tocio cynffonnau ŵyn dros 3 mis oed oni bai fod hynny'n cael ei wneud gan filfeddyg <u>gydag anesthetig a phoenliniarydd</u> effeithiol.**

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen anesthetig
- ☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen poenliniarydd
- ☐ Anghytuno - ni ddylai fod angen milfeddyg
- ☐ Anghytuno - ni ddylid caniatáu tocio cynffonnau dros 3 mis oed
- ☐ Anghytuno - rheswm arall neu fwy nag un rheswm (nodwch isod)
- ☐ Ddim yn siŵr

**24.b) Esboniwch eich ateb.**

[Multiple line answer component]

# Asesiad effaith

## Adborth cyffredinol

**25.a) Ydych chi'n cytuno â'r amcangyfrifon a'r tybiaethau a gyflwynwyd yn asesiad de minimis y cam ymgynghori (er enghraifft, amser, cost, defnyddio dulliau newydd, dichonoldeb defnyddio dulliau lleddfu poen)?**

☐ Ydw

☐ Na

☐ Ddim yn siŵr

**25.b) Os mai 'Na' oedd eich ateb, esboniwch eich rhesymau. Lle bo'n bosibl, rhowch amcangyfrifon neu enghreifftiau eraill o'ch profiad (er enghraifft, costau, amseroedd triniaethau, defnyddio dulliau newydd).**

[Multiple line answer component]

**26. Ydych chi'n ffermwr defaid ar hyn o bryd neu'n cynrychioli ffermwyr defaid?**

☐ Ydw

☐ Na [ewch i'r adran sylwadau pellach]

## Arferion ysbaddu

**27. Ydych chi'n ysbaddu ar eich fferm ar hyn o bryd?**
☐ Ydw
☐ Na [ewch i’r adran arferion tocio cynffonnau]
☐ Mae’n well gen i beidio â dweud

**28.a) Pa ddull ysbaddu ydych chi'n ei ddefnyddio'n bennaf?**
☐ Cylch rwber
☐ Ceillgwd byr
☐ Clamp (er enghraifft, Burdizzo)
☐ Cylch rwber a chlamp cyfun
☐ Clip (er enghraifft, ClipFitter)
☐ Llawfeddygol
☐ Mae’n well gen i beidio â dweud
☐ Arall - rhowch fanylion isod

[Multiple line answer component]

**28.b) Ar gyfartaledd, faint o amser mae'n ei gymryd i ysbaddu pob un o'ch ŵyn (mewn eiliadau)?**

[Numerical answer component]

**28.c) Faint o bobl sy'n ymwneud â'r gwaith ysbaddu ar eich fferm fel arfer?**

[Numerical answer component]

**28.d) Ar ba oedran mae eich ŵyn yn cael eu hysbaddu fel arfer?**
☐ Llai nag 1 wythnos
☐ 2 i 4 wythnos
☐ 5 i 7 wythnos
☐ 8 i 10 wythnos
☐ Dros 10 wythnos
☐ Mae’n well gen i beidio â dweud

**28.e) Ydych chi'n defnyddio dulliau lleddfu poen ar hyn o bryd?**
☐ Ydw
☐ Nac ydw

**28.f) Pe bai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno sy'n galw am leddfu poen ar gyfer dulliau disbaddu y gwyddys eu bod yn achosi poen sylweddol (er enghraifft, cylch rwber), a fyddech chi'n parhau i ysbaddu?**

☐ Byddwn

☐ Na

☐ Ddim yn siŵr

## Arferion tocio cynffonnau

**29. Ydych chi'n tocio cynffonnau ar eich fferm ar hyn o bryd?**

☐ Ydw

☐ Na [ewch i'r adran rheoli fferm a risgiau i les]

☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

**30.a) Pa ddull tocio cynffonnau ydych chi'n ei ddefnyddio'n bennaf?**

☐ Cylch rwber

☐ Cylch rwber a chlamp cyfun

☐ Clip (er enghraifft, ClipFitter)

☐ Llawfeddygol

☐ Haearn poeth

☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

☐ Arall - rhowch fanylion isod

[Multiple line answer component]

**30.b) Ar gyfartaledd, faint o amser mae'n ei gymryd i docio cynffonnau pob un o'ch ŵyn (mewn eiliadau)?**
[Numerical answer component]

**30.c) Faint o bobl sy'n ymwneud â'r gwaith tocio cynffonnau ar eich fferm fel arfer?**
[Numerical answer component]

**30d.) Ar ba oedran mae eich ŵyn yn cael eu tocio fel arfer?**

☐ Llai nag 1 wythnos

☐ 2 i 4 wythnos

☐ 5 i 7 wythnos

☐ 8 i 10 wythnos

☐ Dros 10 wythnos

☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

**30.e) Ydych chi'n defnyddio dulliau lleddfu poen ar hyn o bryd?**

☐ Ydw

☐ Nac ydw

**30.f) Pe bai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno sy'n galw am leddfu poen ar gyfer dulliau tocio cynffonnau y gwyddys eu bod yn achosi poen sylweddol (er enghraifft, cylch rwber), a fyddech chi'n parhau i docio cynffonnau?**

☐ Byddwn

☐ Na

☐ Ddim yn siŵr

## Rheoli fferm a risgiau i les

**31.a) Ydych chi wedi cael problemau sylweddol gyda chynrhoni ar eich daliad yn ystod y blynyddoedd diwethaf?**

☐ Do

☐ Na

☐ Ddim yn siŵr

**31.b) Oes gennych chi'r gallu ar hyn o bryd i wahanu mamogiaid a hyrddod ar eich daliad os oes angen?**

☐ Oes

☐ Na

☐ Ddim yn siŵr

**31.c) Os ydych chi'n anfon defaid i'w lladd, beth yw eu hoedran fel arfer?**

[Multiple line answer component]

**31.d) Ydych chi ar hyn o bryd yn anfon ŵyn gwryw i'w lladd cyn iddynt gyrraedd glasoed (er enghraifft, er mwyn osgoi problemau posibl fel staen hwrdd)?**

☐ Ydw

☐ Na

☐ Ddim yn siŵr

**31.e) Ydych chi'n rhagweld unrhyw rwystrau ymarferol neu rwystrau o ran seilwaith i newid arferion ysbaddu neu docio cynffonnau pe bai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno (er enghraifft, casglu'n gynharach, lleddfu poen, newid dulliau)?**

[Multiple line answer component]

## Mynediad milfeddygol a thybiaethau o ran costau

**32.a) A fyddai gofyniad i filfeddyg gyfranogi mewn rhai triniaethau (er enghraifft, ysbaddu neu docio llawfeddygol) yn effeithio ar eich gallu i gyflawni'r arferion**

**hyn?**

☐ Byddai - yn sylweddol

☐ Byddai - i ryw raddau

☐ Na

☐ Ddim yn siŵr

**32.b) Os byddai, esboniwch sut byddai'n effeithio arnoch chi (er enghraifft, cost, logisteg, amseru):**

[Multiple line answer component]

## Sylwadau pellach

**33. Rhowch unrhyw sylwadau neu dystiolaeth am yr effeithiau amgylcheddol y gallai'r polisi arfaethedig eu cael.**

[Multiple line answer component]

**34. Rhowch unrhyw sylwadau neu dystiolaeth am yr effeithiau y gallai'r polisi arfaethedig eu cael ar gydraddoldeb.**

[Multiple line answer component]

**35. Rhowch unrhyw sylwadau neu dystiolaeth rydych chi'n teimlo y dylid eu hystyried ynghylch yr effaith economaidd-gymdeithasol y gallai'r polisi arfaethedig ei chael ar gynhyrchwyr a defnyddwyr. Esboniwch eich ateb.**

[Multiple line answer component]

**36. Rhowch unrhyw ystyriaethau pellach rydych chi'n teimlo y dylid eu nodi wrth ystyried y cynnig polisi hwn. Esboniwch eich ateb.**

[Multiple line answer component]